CYFARFOD

# Cyfarfod y Cabinet: 24 Hydref 2022

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet ar 24 Hydref 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 9 Rhagfyr 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 9 Rhagfyr 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-24-hydref-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Yn bresennol

Cyfarfod blaenorol

Eitemau'r Prif Weinidog

Busnes y Senedd

Gosod neu ail don o Feini Prawf Cenedlaethol



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-24-hydref-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Yn bresennol

- Y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS
- Rebecca Evans AS
- Vaughan Gething AS
- Lesley Griffiths AS
- Jane Hutt AS
- Julie James AS
- Jeremy Miles AS
- Eluned Morgan AS
- Mick Antoniw AS

- Hannah Blythyn AS
- Dawn Bowden AS
- Julie Morgan AS
- Lynne Neagle AS
- Lee Waters AS

## Swyddogion

- Andrew Goodall, Yr Ysgrifennydd Parhaol
- Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog
- Will Whiteley, Pennaeth Is-adran y Cabinet
- Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
- Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
- Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig
- Alex Bevan, Cynghorydd Arbennig
- Daniel Butler, Cynghorydd Arbennig
- Ian Butler, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
- Sara Faye, Cynghorydd Arbennig

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-24-hydref-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Sam Hadley, Cynghorydd Arbennig
- Clare Jenkins, Cynghorydd Arbennig
- Owen John, Cynghorydd Arbennig
- Mitch Theaker, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Christopher W Morgan, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (cofnodion)
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Catrin Sully, Swyddfa’r Cabinet
- Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
- Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Gymraeg
- Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adfer wedi COVID-19 a Llywodraeth Leol
- Tim Moss, Prif Swyddog Gweithredu
- Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, y Trysorlys a’r Cyfansoddiad
- Andrew Granville, Swyddfa’r Cabinet (eitem 4)

# Eitem 1: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

1.1 Cymeradwyodd y Cabinet gofnodion 17 Hydref.

# Eitem 2: Eitemau’r Prif Weinidog

2.1 Nododd y Cabinet na fyddai pleidlais yn cael ei chynnal i aelodau’r Blaid Geidwadol ddewis arweinydd newydd, gan nad oedd ond un ymgeisydd wedi cyrraedd y trothwy gofynnol, a’r disgwyl oedd mai Rishi Sunak AS fyddai’r Prif

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-24-hydref-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Weinidog yn San Steffan.

## Eitem 3: Busnes y Senedd

3.1 Dywedwyd wrth y Gweinidogion y bu un newid i Grid y Cyfarfodydd Llawn ers iddo gael ei gylchredeg gyda phapurau'r Cabinet - byddai'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn gwneud datganiad ddydd Mawrth ynglŷn â chau Pont Menai.

3.2 Roedd y bont wedi cael ei chau yn yr wythnos flaenorol am resymau diogelwch, gan fod pryderon ynghylch cadernid y bachau sy'n cynnal y strwythur crogi wedi codi yn sgil archwilio'r bont. Gallai fod angen gwneud gwaith cryfhau, a allai gymryd rhwng 14 ac 16 o wythnosau. Yn y cyfamser, roedd swyddogion yn ystyried yr hyn y gellid ei wneud i wella'r tagfeydd ar y ffordd.

3.3 Wrth ddychwelyd i fusnes y cyfarfodydd llawn ar gyfer yr wythnos honno, nododd y Gweinidogion nad oed unrhyw bleidlais wedi ei threfnu ar gyfer dydd Mawrth, a bod amser pleidleisio wedi ei drefnu ar gyfer tua 7:10pm ddydd Mercher.

## Eitem 4: Llunio Dyfodol Cymru - Gosod ail don o Feini Prawf Cenedlaethol

4.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog y papur, a oedd yn gwahodd y Cabinet i gytuno ar yr ail don o feini prawf cenedlaethol i Gymru, ac y dylent gael eu gosod gerbron y Senedd ar 22 Tachwedd.

4.2 Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddatblygu dangosyddion cenedlaethol a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-24-hydref-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

meini prawf cenedlaethol i Gymru, a fyddai'n mesur cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant. Mewn gwirionedd, roedd y meini prawf hyn yn dargedau tymor hir ar gyfer Cymru, a byddai ganddynt oblygiadau i'r holl gyrff cyhoeddus y mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol iddynt, gan gynnwys cyrff y llywodraeth a chyrff cyhoeddus yng Nghymru.

4.3 Roedd y Cabinet wedi cytuno'n flaenorol y byddai'r meini prawf cenedlaethol cyntaf ar gyfer Cymru yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd 2021, gydag ymrwymiad i gyhoeddi ail don yn 2022. Ar ôl cynnal ymgynghoriad ffurfiol yn yr hydref 2021, cytunwyd ar y naw o feini prawf cenedlaethol cyntaf, a chawsant eu gosod yn y Senedd ar 14 Rhagfyr 2021.

4.4 Ers mis Rhagfyr, roedd y gwaith ar ddatblygu'r ail don wedi cyflymu, a chytunwyd ar werthoedd meini prawf cenedlaethol drafft ym mis Mai, cyn lansio'r ymgynghoriad ffurfiol ym mis Mehefin. Roedd yr ymgynghoriad, a gaeodd ar 12 Medi, wedi denu 87 o ymatebion a oedd y gadarnhaol ar y cyfan. Ar ôl cynnal dadansoddiad allanol, cynigiwyd na ddylid gwneud unrhyw newidiadau.

4.5 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
Hydref 2022

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-24-hydref-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.